**GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (SIR GAERFYRDDIN AC EITHRIO CAERFYRDDIN, LLANELLI A RHYDAMAN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 39) 2022**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3), 4(2), a 124 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn allan yma fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

**Effaith y Gorchymyn** fydd diwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004 ("Y Gorchymyn Cydgyfnerthu") (sydd yn darparu ar gyfer cymryd camau gorfodi sifil mewn perthynas â thorri'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar aros) drwy gyfnewid y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y gorchymyn hwn am y cynlluniau rhif cyfatebol a oedd ynghlwm wrth y gorchymyn.

Canlyniad y diwigiad yw cymryd lle'r darpariaethau drwy:

Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Heol Penygraig, Llwynhendy
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Heol Waterloo/Heol y Bryn, Pen-y-groes
Ymestyn y gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg, Havard Road, Llanelli
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Glanyfferi
Ymestyn y gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg, Heol Pentre-poeth, Llanelli
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Heol Ddŵr, Cydweli
Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho, Heol y Cyrnol/Heol y Felin, y Betws
Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho, B4314 Bryn Pentywyn, Pentywyn
Dirymu'r gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg, Heol Cwmfelin, y Bynea
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Heol y Mynydd, Brynaman
Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho, dydd Llun i ddydd Gwener 8am – 5pm, Heol Cilycwm, Llanymddyfri
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Bryn Hafod, Tŷ-croes
Gwahardd aros ar unrhyw adeg, Heol y Felin, Pontyberem
Gwahardd aros unrhyw adeg, Heol Llethryd, Pontyberem
Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho, Heol Iscoed, Hendy

Bydd Gorchymyn Atgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) 2004 yn cael ei ddirymu cyn belled ag y mae'n ymwneud ag ochrau'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar y ---- o ------, yn y Flwyddyn Dwy Fil Dau Ddeg Dau a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 39) 2022.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** ar y ddogfen hon
Ar y ---- ddydd o ------, 2022
Ger fy mron i,

**------------------------------------------------------------**
**Linda Rees Jones**
**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**